PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# Amaethyddiaeth
## Cylchlythyr 2025

AGB Adran y Gwyddorau Bywyd
https://www.aber.ac.uk/cy/life-sciences/



## Rhestr o Gyrsiau

**FDSc**
Amaethyddiaeth
**BSc**
Amaethyddiaeth; Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid; Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes; Bioleg Planhigion
**MAg**
Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
**Diddordeb?**
Ffoniwch Dr Rhys Jones (FDSc) ar 01970 622266 neu Ebostiwch raj22@aber.ac.uk
Ffoniwch Dr Hefin Williams (BSc, MAg) ar 01970 621658 neu Ebostiwch hew05@aber.ac.uk

## Mae un o raddedigion Prifysgol Aberystwyth o Sir Gaerfyrddin wedi ennill gwobr Farmers Weekly am y myfyriwr amaethyddiaeth gorau ym Mhrydain


Enillydd, Logan Williams

Gwobrau'r Farmers Weekly yw'r rhai mwyaf mawreddog yn y diwydiant amaeth, gan gydnabod cyflawniadau ffermwyr ledled y wlad. Llwyddodd Logan Williams, sydd wedi graddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn amaethyddiaeth gyda gwyddor anifeiliaid o Brifysgol Aberystwyth, i guro myfyrwyr eraill i'r wobr chwenychedig am y myfyriwr amaethyddiaeth gorau. Astudiodd lawer o'i gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg a bu'n helpu i redeg fferm ochr yn ochr â'i rieni yn Nhirmynydd, Sir Gaerfyrddin tra bu'n astudio. Ers graddio mae wedi ymuno â chwmni bwyd Dunbia. Meddai'r beirniaid: "Mae Logan yn fyfyriwr ymroddedig, uchel ei gyflawniad gydag angerdd amlwg am amaethyddiaeth yn ei gymuned leol. Nid yw'r hyn y mae wedi'i gyflawni eisoes yn ddim llai na rhyfeddol."

Wrth ymateb i'w fuddugoliaeth, dywedodd Logan: "Rwyf wrth fy modd fy mod wedi ennill – mae'n anhygoel. Rwyf mor ddiolchgar am yr holl gefnogaeth a gefais gan fy narlithwyr a fy nheulu. Amaethyddiaeth yw un o'r diwydiannau – a'r pynciau – hynny sy'n dal i roi, gyda datblygiadau cyson mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn sicrhau darpariaeth bwyd ar gyfer y boblogaeth gynyddol. Er mwyn i mi allu bod ar y fferm cymaint â phosibl, defnyddiais rai technegau astudio creadigol, fel gwrando yn ôl ar ddarlithoedd trwy Bluetooth yn y pickup wrth dynnu defaid o fferm i fferm."


Caryl Davies, yn y rownd derfynol

Llwyddodd Caryl Davies, a wnaeth hefyd raddio o Brifysgol Aberystwyth, i gyrraedd y tri olaf ar restr fer y wobr. Yn hanu o Eglwyswrw yn Sir Benfro, graddiodd eleni o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd dosbarth cyntaf mewn amaethyddiaeth gyda gwyddor anifeiliaid. Fe'i magwyd ar fferm bîff a defaid ac mae'n weithgar yng nghystadlaethau'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol gan gynrychioli'r DU ar lefel ryngwladol ym maes trin defaid.

## Myfyriwr 18 oed o Ddyffryn Ogwen yw'r myfyriwr Amaethyddiaeth cyntaf i ennill ysgoloriaeth fawr cyfrwng Cymraeg gwerth £3,000 ym Mhrifysgol Aberystwyth.




Mae Gwion Pritchard, a oedd yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda a gwblhaodd cwrs lefel 3 Amaethyddiaeth yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Glynllifon, wedi ennill ysgoloriaeth i astudio Amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Rhoddir Prif Ysgoloriaeth y Coleg yn flynyddol i ymgeiswyr sy'n dewis astudio o leiaf 66% o'u cynllun gradd mewn unrhyw faes pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth bellach astudio o leiaf dwy ran o dair o'u gradd Amaethyddiaeth yn y Gymraeg. Daw'r newyddion am wobr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth i Brifysgol Aberystwyth baratoi i ddathlu 20 mlynedd o ddysgu Amaethyddiaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Amaethyddiaeth ers 2006, ac mae'r ddarpariaeth wedi bod yn adeiladu dros y ddegawd ddiwethaf diolch i gyllid a chefnogaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Meddai Gwion: "Mae'n anrhydedd cael yr ysgoloriaeth hon ac rwyf hefyd yn falch iawn o allu astudio ar gyfer gradd mewn Amaethyddiaeth yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, fy iaith gyntaf. Gallu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg oedd y prif ffactor wrth wneud fy newis i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth".

**Gall Dangosyddion Perfformiad Allweddol Hybu Proffidioldeb Ffermwyr Buchesau Sugno a Defaid yng Nghymru a Lloegr**



Yn ddiweddar mae cyfran sylweddol o'r elw fferm blynyddol isaf a gofnodwyd wedi'i briodoli i fentrau cig eidion a defaid ar dir isel a thir llai ffafriol (LFA; Less Favoured Areas). Mesurodd ymchwilwyr o Brifysgol Aberystwyth gostau, marwolaethau, cynhyrchiant a stocio ar draws pedwar gwahanol menter; Mamogiaig iseldir, mamogiaid LFA, cig eidion sugno'r iseldir a chig eidion sugno LFA. Roedd gan fesurau cynhyrchiant da byw, megis ŵyn fesul stoc bridio a lloi fesul buwch, gysylltiad arwyddocaol iawn ag elw gros y pen.

Er bod costau mewnbwn yn uchel yn ystod cyfnod yr astudiaeth (2018/19 – 2021/22), roedd gan ddwysfwydydd y pen gysylltiad sylweddol negyddol ym mhob math o fenter, ar wahân i gig eidion sugno LFA lle'r oedd marwolaethau buchod yn effeithio elw gros y pen fwyaf. Mae'r astudiaeth hon wedi dangos pwysigrwydd casglu data a meincnodi arferol, yn enwedig ar adegau o ansefydlogrwydd yn y farchnad a phrisiau mewnbwn uchel.

**Gwydnwch Glaswelltir ar gyfer Net Sero: Arferion cynaliadwy ar gyfer llunio dyfodol defnydd tir y DU**



Myfyrwyr yn mynd ar daith o amgylch fferm ddefaid a bîff mynydd organig lle buont yn siarad â'r ffermwr am fanteision plannu gwrychoedd a choed i gyflawni rhai o nodau busnes a chynaliadwyedd y fferm hon.

Mae glaswelltiroedd dros dro a pharhaol yn gorchuddio dros 70% o dir amaethyddol y DU. Maent yn darparu ased naturiol hanfodol ar gyfer cyrraedd targedau hinsawdd, natur a bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol, tra'n darparu porthiant i anifeiliaid cnoi cil sy'n trosi porthiant anfwytadwy dynol yn fwyd llawn maetholion. Gallai gwneud y defnydd gorau o laswelltir helpu'r DU i wireddu ei photensial lliniaru gan arbed mwy na £1.6biliwn y flwyddyn. Gellir gwneud hyn trwy wahanol ddulliau megis pori ucheldirol, porthiant sy'n lliniaru methan, amaeth-goedwigaeth, porthiant carbon isel, porfeydd amlrywogaeth sy'n llawn codlysiau, porfa silvo, cynhyrchu biomas a sefydlu coetir. Mae Dr Pip Nicholas-Davies yn cyd-arwain gwaith gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant, Prifysgol Gorllewin Lloegr, ac eraill, i gyd-greu llwybrau mabwysiadu ar gyfer arferion ffermio net-sero arloesol ac i ddatblygu argymhellion polisi sy'n diogelu treftadaeth naturiol a diwylliannol ac yn cefnogi'r Cynllun Twf Net-Zero.

**Llwyddiant barnu stoc i Lewis**

Llongyfarchiadau enfawr i'n myfyriwr Amaethyddiaeth 2il flwyddyn, Lewis Beavan, ar ei lwyddiant arbennig yng NFYFC Cymru a Chystadleuaeth barnu stoc y Pum Gwlad! Mae Lewis yn aelod gweithgar iawn o Glwb Ffermwyr Ifanc Tref-y-Clawdd (CFfI) ym Maesyfed lle mae'n parhau i gystadlu a mynychu digwyddiadau cymdeithasol y clwb ochr yn ochr â'i astudiaethau yn Aberystwyth.



Photo credit: Cffl Cymru

Tua diwedd mis Awst, bu Lewis yn cystadlu yn erbyn beirniaid stoc ifanc gorau o bob rhan o Gymru a Lloegr yn y Rowndiau Terfynol Cenedlaethol, gan sicrhau'r safle cyntaf fel Stocmon Ifanc y Flwyddyn. Roedd y gystadleuaeth yn cynnwys holiadur Iechyd Anifeiliaid ac Adnabod Cig, ac yna beirniadu stoc, lle bu Lewis yn asesu mamogiaid magu, gwartheg godro, moch cigydd, a buchod eidion. Caniatawyd 20 munud i bob lloc i'r cystadleuwyr feirniadu ac ysgrifennu eu rhesymau am eu dewis. Sicrhaodd ei berfformiadau cryf y teitl cyffredinol o ddau bwynt yn unig! Yna bu Lewis yn cynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Barnu Stoc y Pum Gwlad yn Sioe Westmorland. Wrth gystadlu yn erbyn Lloegr, barnodd famogiaid magu, ŵyn cigyddion, gwartheg bîff, a gwartheg godro, cyn cwblhau tasg filfeddygol. Enillodd Lewis y teitl unigol, tra sicrhaodd tîm Cymru fuddugoliaeth fel grŵp. Rydym yn hynod falch o lwyddiannau Lewis a'i ymroddiad i farnu stoc a gweithgareddau cysylltiedig â'r CFfI.